Pecyn Dogfennau

Cyngor **Sir Gâr**
**Carmarthenshire**
County Council

sirgar.llyw.cymru
carmarthenshire.gov.wales

**DYDD LLUN, 31 HYDREF 2022**

**AT: YR AELODAU O'R CABINET DROS DREFNIADAETH A'R GWEITHLU A MATERION GWLEDIG A PHOLISI CYNLLUNIO**

YR WYF DRWY HYN YN EICH GALW I FYNYCHU RHITH-**CYFARFOD AR Y CYD AELODAU Y CABINET AR GYFER TREFNIADAETH A'R GWEITHLU A MATERION GWLEDIG A PHOLISI CYNLLUNIO** A GYNHELIR YN **RHITH-GYFARFOD** AM **4.00 YP,** AR **DYDD LLUN, 7FED TACHWEDD, 2022** ER MWYN CYFLAWNI'R MATERION A AMLINELLIR AR YR AGENDA ATODEDIG.

*Wendy Walters*

**PRIF WEITHREDWR**

| | |
|---|---|
| **Swyddog Democrataidd:** | **Kevin Thomas** |
| **Ffôn (llinell uniongyrchol):** | **01267 224027** |
| **E-bost:** | **kjthomas@sirgar.gov.uk** |


Wendy Walters Prif Weithredwr*, Chief Executive,*
Neuadd y Sir, Caerfyrddin. SA31 1JP
*County Hall, Carmarthen. SA31 1JP*

# A G E N D A


1. **DATGANIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL**

2. **ADRODDIAD BLYNYDDOL Y CYNLLUN CYDRADDOLDEB STRATEGOL 2021-22** 3 - 48


*Sylwer: - Nid oes hawl gan y wasg a'r cyhoedd fynychu'r cyfarfod. Bydd y cofnod penderfyniad yn cael ei gyhoeddi fel arfer o fewn 3 diwrnod gwaith.*

**7 Tachwedd 2022**

| Yr Aelodau Cabinet | Y Portffolio: |
|---|---|
| Y Cyng. Ann Davies | Materion Gwledig a Pholisi Cynllunio |
| Y Cyng. Philip Hughes | Trefniadaeth a Gweithlu |

## Adroddiad Blynyddol y Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2021-22

### Y Pwrpas:

I gymeradwyo Adroddiad Blynyddol y Cynllun Cydraddoldeb Strategol ar gyfer 2021-22.

### Yr Argymhellion / Penderfyniadau Allweddol Sydd Eu Hangen:

Cytuno ar gynnwys yr Adroddiad Blynyddol er mwyn ei gyhoeddi a'i hyrwyddo ar wefan y Cyngor.

### Y Rhesymau:

Mae'r Ddeddf Cydraddoldeb 2010 yn cyfuno deddfwriaethau gan gryfhau a mireinio'r Gyfraith gan ei gwneud hi'n haws i bobl ddeall a chydymffurfio. Daeth y mwyafrif o'r Ddeddf i rym ar 1 Hydref 2010.

Mae Adroddiadau Blynyddol yn gyfle da i fonitro, adolygu a myfyrio ac yn gyfle i'r awdurdod i nodi ei weithgarwch parhaus ynghylch cyflawni'r dyletswyddau cyffredinol a phenodol. Mae hyn yn cynnwys ystyried a ydy'r trefniadau a chamau gweithredu yn effeithiol ac yn parhau'n briodol. Bydd adroddiadau blynyddol yn cynorthwyo awdurdodau i fonitro eu gwaith eu hunain, yn ogystal â darparu tryloywder ar gyfer rhanddeiliaid.

| | | |
|---|---|---|
| **Y Gyfarwyddiaeth:** Prif Weithredwr<br>**Enw Pennaeth y Gwasanaeth:**<br>Noelwyn Daniel<br><br>**Awdur yr Adroddiad:**<br>Llinos Evans | **Swyddi:**<br>Pennaeth TGCh a Pholisi Corfforaethol a Chyfarwyddwr Gweithredol Adran yr Amgylchedd<br><br>Rheolwr Polisi a Chynnwys | **Cyfeiriadau E-bost:**<br>NDaniel@sirgar.gov.uk<br><br>LlinEvans@sirgar.gov.uk |

Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire County Council

**Declaration of Personal Interest (if any):**
**None**

**Dispensation Granted to Make Decision (if any):**
**N/A**

## DECISION MADE:

**Signed:**
_______________________________________________________DATE:______
CABINET MEMBER

**The following section will be completed by the Democratic Services Officer in attendance at the meeting**

| | |
|---|---|
| Recommendation of Officer adopted | YES / NO |
| Recommendation of the Officer was adopted **subject to the amendment(s) and reason(s) specified:** | |
| Reason(s) why the Officer's recommendation was **not adopted**: | |

Cyngor **Sir Gâr**
**Carmarthenshire**
County Council

# EXECUTIVE SUMMARY
# CABINET MEMBERS DECISION
# 7 NOVEMBER 2022

**STRATEGIC EQUALITY PLAN ANNUAL REPORT 2021-22**

The Equality Act 2010 includes a public sector equality duty, replacing the separate duties on race, disability and gender equality.

The new general duty covers the following protected characteristics:

- Age
- Gender reassignment
- Sex
- Race – including ethnic or national origin, colour or nationality
- Religion and belief – including lack of belief
- Disability
- Marriage and Civil Partnership
- Pregnancy and maternity
- Sexual Orientation.

The aim of the general duty is to ensure that public authorities and those carrying out a public function consider how they can positively contribute to a fairer society through advancing equality and good relations in their day-to-day activities.

Public bodies are required to have due regard to:

- Eliminate unlawful discrimination, harassment and victimisation and other conduct that is prohibited by the Act
- Advance equality of opportunity between people who share a relevant protected characteristic and those who do not
- Foster good relations between people who share a protected characteristic and those who not.

Annual Reporting as a Specific Duty

The Wales specific equality duties set out the requirement to report annually under the heading *Reports by authorities on compliance with the general duty*. This is a useful reminder that the essential purpose of the specific duties is to help authorities to have better due regard to the need to achieve the 3 aims of the General Duty. The Regulations invite authorities to produce an annual report covering *any matter* that is relevant to the authority fulfilling the general and specific equality duties.

| | |
|---|---|
| **DETAILED REPORT ATTACHED ?** | **YES**<br>**Annual Report 2021-22**<br>**Action Plan 2022-24** |

Cyngor **Sir Gâr**
**Carmarthenshire**
County Council

# IMPLICATIONS

**I confirm that other than those implications which have been agreed with the appropriate Directors / Heads of Service and are referred to in detail below, there are no other implications associated with this report:**

**Signed:** Noelwyn Daniel, Head of ICT & Corporate Policy and Interim Director of Environment

| Policy and Crime & Disorder | Legal | Finance | ICT | Risk Management Issues | Organisational Development | Physical Assets |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **YES** | **YES** | **NONE** | **NONE** | **NONE** | **NONE** | **NONE** |

**1. Policy, Crime & Disorder and Equalities**

The development and publication of a Strategic Equality Plan is a Statutory responsibility under the Equality Act 2010.

Equality and Diversity issues are considered alongside the Well-being of Future Generations Act responsibilities.

**2. Legal**

There are legal obligations to non-compliance with the Equality Act 2010.

# CONSULTATIONS

| |
|---|
| **I confirm that the appropriate consultations have taken in place and the outcomes are as detailed below**<br><br>Signed: Noelwyn Daniel, Head of ICT and Corporate Policy and Interim Director of Environment |
| 1. Scrutiny Committee<br>N/A<br>2.Local Member(s)<br>N/A.<br>3.Community / Town Council<br>N/A<br>4.Relevant Partners<br>N/A<br>5.Staff Side Representatives and other Organisations<br>N/A |

Section 100D Local Government Act, 1972 – Access to Information
List of Background Papers used in the preparation of this report:

THESE ARE DETAILED BELOW

| Title of Document | File Ref No. | Locations that the papers are available for public inspection |
|---|---|---|
| Equality and Human Rights Commission Guidance for the Public Sector in Wales | | http://www.equalityhumanrights.com/wales/publications/guidance-on-the-equality-duty-for-the-welsh-public-sector/<br><br>or through Llinos Evans (LlinEvans@carmarthenshire.gov.uk) |
| Carmarthenshire County Council's Strategic Equality Plan 2020-24 | | http://www.carmarthenshire.gov.uk/english/council/pages/equalitydiversity.aspx<br><br>or through Llinos Evans (LlinEvans@carmarthenshire.gov.uk) |
| | | |

Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire County Council

# Cynllun Cydraddoldeb Strategol

## Adroddiad Blynyddol

2021-22

sirgar.llyw.cymru

Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire County Council

# Cynnwys


Rhagair i Adroddiad Blynyddol y Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2021-22 ..... 3

Adran 1 - Rhagarweiniad ..... 4

Cyflwyniad a Chefndir ..... 4

Adran 2 - Nodi, casglu a defnyddio gwybodaeth berthnasol ..... 6

2.1 Ein cymunedau ..... 6

2.2 Ein staff ..... 8

Adran 3 – Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb ..... 8

Adran 4 – Hyfforddiant ..... 8

Adran 5 – Trefniadau caffael ..... 9

Amcan Cydraddoldeb Strategol - Bod yn Gyflogwr Arweiniol ..... 10

Astudiaeth Achos 1: Cymorth Cyntaf Iechyd Meddwl yn yr awdurdod ..... 10

Amcan Cydraddoldeb Strategol - Bod yn Gyflogwr Arweiniol ..... 13

Astudiaeth Achos 2: Dysgu a Datblygu ..... 13

Amcan Cydraddoldeb Strategol - Bod yn Gyflogwr Arweiniol ..... 16

Astudiaeth achos 3: – Canllawiau trawsrywedd i staff a rheolwyr ..... 16

Amcan Cydraddoldeb Strategol - Mae anghenion a hawliau pobl â Nodweddion Gwarchodedig yn llywio dyluniad gwasanaethau ..... 18

Astudiaeth achos 4: Theatrau a Gwasanaethau Diwylliannol ..... 18

Amcan Cydraddoldeb Strategol - Mae anghenion a hawliau pobl â Nodweddion Gwarchodedig yn llywio dyluniad gwasanaethau ..... 20

Astudiaeth achos 5: Hygyrchedd gwasanaethau digidol ..... 20

Amcan Cydraddoldeb Strategol - Mae anghenion a hawliau pobl â Nodweddion Gwarchodedig yn llywio dyluniad gwasanaethau ..... 22

Astudiaeth achos 6: Asesiad Effaith Integredig ..... 22

Amcan Cydraddoldeb Strategol - Cymunedau Diogel a Chydlynus sy'n gydnerth, yn deg ac yn gyfartal ..... 24

Astudiaeth achos 7: Cydlyniant Cymunedol 2021 – 22 ..... 24

Amcan Cydraddoldeb Strategol – Gwella mynediad i'n gwasanaethau a mynediad i'n hamgylchedd ..... 29

Astudiaeth Achos 8: Cynghrair a Phartneriaeth Anableddau Sir Gaerfyrddin ..... 29

Manylion Cyswllt ..... 31

# Rhagair i Adroddiad Blynyddol Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2021-22

Mae'n bleser gennym gyflwyno Adroddiad Blynyddol Cyngor Sir Caerfyrddin ar gyfer 2021-22, sy'n manylu ar y modd y rhoddwyd ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol a'n Hamcanion Cydraddoldeb Strategol ar waith.

Prif bwrpas yr Adroddiad Blynyddol hwn yw cyflawni dyletswyddau a rhwymedigaethau cyfreithiol y Cyngor i adrodd ar ei gynnydd wrth gyflawni'r Dyletswyddau Cydraddoldeb Cyffredinol a Phenodol. Mae Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus yn mynnu y dylai pob awdurdod cyhoeddus o dan y dyletswyddau penodol yng Nghymru lunio adroddiad blynyddol - mae'r adroddiad hwn yn cwmpasu'r cyfnod o 1 Ebrill 2020 i 31 Mawrth 2021.

Fel rhan o'n hadroddiad, byddwn yn dangos ein cynnydd yn erbyn ein Hamcanion Cydraddoldeb Strategol, sef:

1. Bod yn gyflogwr arweiniol
2. Mae anghenion a hawliau pobl â Nodweddion Gwarchodedig yn llywio dyluniad gwasanaethau
3. Cymunedau diogel a chydlynus sy’n gydnerth, yn deg ac yn gyfartal
4. Gwella mynediad i’n gwasanaethau a mynediad i’n hamgylchedd.

Ein nod yw gwneud Sir Gaerfyrddin yn lle mwy cyfartal i bobl fyw, gweithio a chael mynediad at wasanaethau; fodd bynnag, rydym yn cydnabod bod yna, ac y bydd yna, feysydd i'w gwella. Bydd cyhoeddi'r Adroddiad Blynyddol hwn nid yn unig yn helpu'r Cyngor i gyflawni ei rwymedigaethau o dan Ddyletswyddau Cydraddoldeb Penodol Cymru, ond bydd yn eich cynorthwyo, fel ein trigolion, i nodi'r meysydd hyn a monitro'r cynnydd a wneir arnynt.

**Y Cynghorydd Philip Hughes**

Aelod Cabinet dros Gydraddoldeb (Polisi a Gweithlu)

**Y Cynghorydd Ann Davies**

Aelod Cabinet dros Gydraddoldeb (Cymunedau)

# Adran 1 - Rhagarweiniad

## Cyflwyniad a chefndir

| Dyletswyddau Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus |
|---|

**Y Ddyletswydd Gyffredinol**

Nod y Ddyletswydd Gyffredinol yw sicrhau bod awdurdodau cyhoeddus, a'r rheiny sy'n cyflawni swyddogaeth gyhoeddus, yn ystyried sut y gallant gyfrannu'n gadarnhaol at gymdeithas decach drwy hybu cydraddoldeb a chysylltiadau da yn eu gweithgareddau o ddydd i ddydd.

**Mae'n ofynnol i gyrff cyhoeddus roi sylw dyladwy i'r angen i:**

1. Ddileu camwahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth anghyfreithlon ac unrhyw ymddygiad arall a waherddir gan y Ddeddf
2. Gwella cyfle cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol a'r rheiny nad ydynt yn rhannu'r nodwedd honno
3. Meithrin cysylltiadau da rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig a phobl nad ydynt yn ei rhannu.

**Nodweddion Gwarchodedig**

Dyma'r term a ddefnyddir yn y Ddeddf Cydraddoldeb i nodi'r mathau o bobl sy'n fwy tebygol o brofi triniaeth niweidiol a/neu wahaniaethu dim ond oherwydd pwy ydyn nhw. Mae'r gyfraith wedi'i bwriadu i'w gwarchod. Y nodweddion hyn yw:

- Oedran
- Anabledd
- Ailbennu Rhywedd
- Priodas a Phartneriaeth Sifil
- Beichiogrwydd a Mamolaeth
- Hil
- Crefydd neu gred
- Rhyw
- Cyfeiriadedd Rhywiol.

**Dyletswyddau Penodol yng Nghymru**

Roedd Deddf Cydraddoldeb 2010 yn gwneud darpariaeth i Weinidogion Cymru allu gwneud rheoliadau sy'n gosod dyletswyddau cydraddoldeb penodol o ran y sector cyhoeddus ar awdurdodau cyhoeddus perthnasol yng Nghymru a restrir yn Rhan 2 o Atodlen 19 o'r Ddeddf.

Mae'r dyletswyddau wedi'u datblygu i fod yn gymesur o ran dyluniad, yn berthnasol o ran angen, yn dryloyw eu dull ac wedi'u teilwra i arwain awdurdodau cyhoeddus perthnasol yng

Nghymru tuag at gyflawni'r ddyletswydd gyffredinol yn well. Yr uchelgais yw diwallu'n well anghenion dinasyddion Cymru sy'n dibynnu ar y gwasanaethau a ddarperir iddynt gan y sector cyhoeddus.

Mae'r Dyletswyddau Penodol yng Nghymru wedi'u nodi yn Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011 a daethant i rym ar 6 Ebrill 2011 ac yn nodi y bydd y cyrff rhestredig yn ymgymryd â'r gofynion canlynol ac yn eu datblygu:

- Amcanion
- Cynlluniau Strategol Cydraddoldeb
- Ymgysylltu
- Asesu Effaith
- Gwybodaeth am gydraddoldeb
- Gwybodaeth am gyflogaeth
- Gwahaniaethau rhwng cyflogau
- Hyfforddi staff
- Caffael
- Adroddiadau blynyddol (gan Awdurdodau Cyhoeddus a Gweinidogion Cymru)
- Cyhoeddi
- Adolygu
- Hygyrchedd

# Adran 2 - Nodi, casglu a defnyddio gwybodaeth berthnasol

## 2.1 Ein cymunedau

**Cefndir ystadegol**

Amcangyfrifir bod poblogaeth Sir Gaerfyrddin yn 190,073, gyda dwysedd poblogaeth (nifer y boblogaeth/ardal fesul cilometr sgwâr) o 78 person am bob cilometr sgwâr. Mae'r Sir yn wledig ac yn amrywiol iawn. Yn dilyn adolygiad gan y Comisiwn Ffiniau Etholiadol yn 2019, mae'r sir bellach yn cynnwys 51 o Wardiau Etholiadol gyda 75 Aelod Etholedig. Bydd Proffiliau Demograffig ar gyfer pob un o'r Wardiau Etholiadol ac ar gyfer y Sir yn cael eu llunio yn dilyn rhyddhau data Cyfrifiad 2021. Bydd hyn yn rhoi darlun o fywyd yn y cymunedau unigol yn ogystal â gwybodaeth leol werthfawr.

- Ystadegau'r Boblogaeth
- Dwysedd y boblogaeth
- Cyfradd Genedigaethau a Marwolaethau
- Data Cyfrifiad 2011
- Gwybodaeth am Dai

Gellir cyrchu'r Proffiliau Ward trwy wefan gorfforaethol y Cyngor.

Mae gwybodaeth ystadegol yn darparu llinell sylfaen ddefnyddiol o wybodaeth inni; fodd bynnag, nid yw canlyniadau'r Cyfrifiad yn darparu gwybodaeth am yr holl nodweddion gwarchodedig.



Fel awdurdod lleol, gallwn gael mynediad i gyfoeth o ddata. Yn ystod 2021/22 rydym wedi sefydlu tîm Mewnwelediad Data i arwain y gwaith o goladu a dadansoddi data a chynorthwyo adrannau i wneud hynny. Mae disgwyl i ganlyniadau Cyfrifiad 2021 gael eu rhyddhau yn ystod 2022/23 a byddwn yn adeiladu ar y dystiolaeth sydd gennym ar ein cymunedau ledled Sir Gaerfyrddin. Bydd y mewnwelediad hwn hefyd yn myfyrio ar yr Adroddiad A yw Cymru'n Decach?, a gyhoeddwyd gan y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol.

**Asesiad Llesiant Lleol**

Yn ystod y flwyddyn, rydym hefyd wedi bod yn cynorthwyo Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir Gaerfyrddin i baratoi'r Asesiad Llesiant Lleol

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn ei gwneud yn ofynnol i bob un o'r 22 o Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus ddatblygu a chyhoeddi Asesiad Llesiant. Bydd yr Asesiad yn gweithredu fel datganiad o lesiant ar gyfer pob ardal sirol briodol. Yn ogystal â phwysigrwydd adlewyrchu data meintiol (e.e. o'r Cyfrifiad a ffynonellau swyddogol eraill), mae'r canllawiau'n pwysleisio bod ymgysylltu'n sylweddol â phobl yn hanfodol er mwyn gwneud yr asesiad o lesiant yn ddigonol.

Er mwyn cydweithio a gwneud y defnydd gorau o adnoddau, bu Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion, Sir Gaerfyrddin, a Sir Benfro yn cydweithio ar eu hasesiadau llesiant. Mae'r dull gweithredu cyson a rhanbarthol hwn hefyd yn cynorthwyo sefydliadau sy'n rhan o'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, ond sydd â chylch gwaith sy'n ymestyn y tu hwnt i Sir Gaerfyrddin.

Datblygwyd arolwg, a lluniwyd cyfres o gwestiynau o dan y 7 Nod Cenedlaethol sef ffyniannus, cydnerth, cyfartal, iachach, cydlynus, diwylliant bywiog ac iaith Gymraeg ffyniannus a Sir Gaerfyrddin ymatebol.

Roedd yr arolwg ar gael yn Gymraeg, Saesneg, Pwyleg, Rwmaneg, ac Arabeg. Roedd fersiwn Hawdd ei Darllen o'r arolwg ar gael yn Gymraeg a Saesneg hefyd.

Cafodd cwestiynau demograffig manwl hefyd eu cynnwys fel rhan o'r arolwg (nid oedd modd adnabod ymatebwyr) i sicrhau ein bod yn clywed lleisiau ein holl gymunedau yn ein gwaith ymgysylltu. Roedd yr wybodaeth hon hefyd yn ein galluogi i ddadansoddi adborth gan gymunedau penodol a grwpiau gwarchodedig ar eu llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol a bod yr adborth yn ffurfio rhannau o'n tystiolaeth wrth ddatblygu Amcanion Llesiant a'r Cynllun Llesiant yn ystod 2022-23.

Mae'r Asesiad Llesiant Lleol a dogfennau ategol i'w gweld ar wefan Y Sir Gâr a Garem.

Y SIR GÂR
A GAREM
THE CARMARTHENSHIRE
WE WANT

### 2.2 Ein staff

Mae Cyngor Sir Caerfyrddin wedi bod yn casglu data cyflogaeth ers sawl blwyddyn bellach ac wedi creu adnoddau penodol i esbonio i staff pam y mae'r wybodaeth yn cael ei chasglu a sut y gall y data ddylanwadu ar ein polisïau yn y gweithle a'r gefnogaeth i staff. Gellir gweld ein Hadroddiad manwl ar Broffil y Gweithle ar ein gwefan gorfforaethol. Yn dilyn cyhoeddi Deddf Cydraddoldeb 2010, mae'r is-adran Rheoli Pobl wedi bod yn gweithio i wella'r broses o gasglu data'r gweithlu ac rydym yn cydnabod bod hon yn broses barhaus. Bydd y gwaith o gasglu data wrth recriwtio yn cael ei wella trwy gyflwyno system recriwtio newydd a fydd yn rhoi offer adrodd haws a manylach i ni.

Yn ogystal, caiff data ei gasglu ac adroddir arno trwy'r Polisi Cyflog a'r Archwiliadau Cyflog Cyfartal sy'n cael eu cyhoeddi bob blwyddyn.

Caiff polisïau cyflogaeth eu hasesu yn ôl eu heffaith ar gydraddoldeb a chaiff tâl ei fonitro'n rheolaidd ynghyd â graddio/gwerthuso swyddi.

Mae sesiynau Cynllunio'r Gweithlu ar gyfer rheolwyr gwasanaethau wedi'u cyflwyno ac mae cynlluniau'r gweithlu yn ystyried proffil y gweithlu gyda'r bwriad o roi camau ar waith i sicrhau bod y gweithlu'n adlewyrchu'r gymuned y mae'n ei gwasanaethu.

# Adran 3 – Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb

Mae Asesiadau o’r Effaith ar Gydraddoldeb yn elfen allweddol o'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol a’r amcanion ac maent yn rhan annatod o'r holl benderfyniadau yn ymwneud â chyllideb, polisi a strategaeth. Mae'n ofynnol bod Penaethiaid Gwasanaeth a Rheolwyr Cyllideb yn cwblhau asesiad o'r holl benderfyniadau polisi fel rhan o'r broses o osod cyllideb. Mae hefyd yn allweddol bod asesiadau'n cael eu cynnal fel rhan o ddatblygu pob polisi a strategaeth a bod y templed Newid Sefydliadol yn cael ei lenwi pan fydd yna ystyriaethau Adnoddau Dynol.

Gellir gweld astudiaeth achos ar ein gwaith diweddar i gyflwyno proses Asesu Effaith Integredig ar dudalen 18.

# Adran 4 – Hyfforddiant

Mae Tîm Dysgu a Datblygu'r Cyngor yn paratoi Cynllun Dysgu a Datblygu blynyddol sy'n amlinellu'r holl gyfleoedd hyfforddi a datblygu sydd ar gael - gan gynnwys cyfleoedd

Cydraddoldeb ac Amrywiaeth. Mae'n ofynnol i Reolwyr Llinell drafod cyfleoedd dysgu a datblygu fel rhan o arfarnu staff a sicrhau bod staff yn cael cyfleoedd i ddatblygu'n broffesiynol.

Mae'n ofynnol i bob aelod newydd o staff gwblhau'r modiwl dysgu ar-lein "Arddel Amrywiaeth" cyn pen chwe mis ar ôl eu penodi. Mae'n ofynnol i bob Rheolwr ac Uwch-reolwr fynychu'r hyfforddiant Safonau Ymddygiad yn y Gweithle ac, os ydynt yn ymwneud â gweithgareddau recriwtio, Hyfforddiant Recriwtio a Dethol.

# Adran 5 – Trefniadau caffael

Mae'r Tîm Polisi a Phartneriaeth yn gweithio'n agos gyda'r Uned Gaffael i sicrhau cydymffurfiaeth. Un o'r dogfennau allweddol yw'r Holiadur Dethol a ddefnyddir mewn ymarferion tendro caffael.

Mae gwybodaeth ynghylch Cydraddoldeb wedi'i chynnwys yn yr holiadur, ac mae'n rhaid i bob darpar gyflenwr lenwi'r adran hon. Mae'r holiadur yn gofyn yn benodol i ddarpar gyflenwyr am wybodaeth mewn perthynas ag unrhyw ganfyddiadau o wahaniaethu anghyfreithlon gan Dribiwnlys Cyflogaeth, Tribiwnlys Apeliadau Gweithwyr, neu unrhyw lys arall a/neu unrhyw gŵynion a gadarnhawyd yn dilyn ymchwiliad gan y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol neu ei ragflaenwyr (neu gorff cymaradwy mewn unrhyw awdurdodaeth heblaw'r DU) ar sail gwahaniaethu anghyfreithlon honedig. Mae'r canllawiau'n nodi'n glir na fydd darpar gyflenwyr sydd ag unrhyw ganfyddiadau yn eu herbyn yn cael eu dethol i dendro, oni bai eu bod wedi darparu tystiolaeth ddigonol eu bod wedi cymryd camau priodol i atal hynny rhag digwydd eto.

**Côd Ymarfer Llywodraeth Cymru - Cyflogaeth Foesegol Mewn Cadwyni Cyflenwi**

Cymeradwywyd y Polisi Cyflogaeth Foesegol mewn Cadwyni Cyflenwi gan y Cabinet ar 8 Tachwedd 2022.

Rydym wedi uwchlwytho Datganiad Caethwasiaeth Fodern y Cyngor o dan y tudalennau 'Cyngor a Democratiaeth'.

Gweler isod y ddolen lle gellir dod o hyd i'r Datganiad a'i lawrlwytho.
https://www.sirgar.llyw.cymru/cartref/cyngor-a-democratiaeth/cydraddoldeb-ac-amrywiaeth/

Mae'r Cabinet hefyd wedi enwebu Hyrwyddwr Etholedig Cyflogaeth Foesegol.

# Amcan Cydraddoldeb Strategol: Bod yn Gyflogwr Arweiniol

## Astudiaeth Achos 1: Cymorth Cyntaf Iechyd Meddwl yn yr awdurdod

Mae materion Iechyd Meddwl wedi bod ar gynnydd yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae'r pandemig COVID-19 yn cael effaith enfawr ar lesiant meddyliol staff a'r boblogaeth, dangoswyd hyn trwy Iechyd Galwedigaethol ac ystadegau ehangach. Mae'n debygol y bydd effeithiau'r pandemig ar iechyd meddwl yn para'n hir a bydd angen mwy o wasanaethau a chymorth iechyd meddwl yn y tymor hir.

Bu'r Cydgysylltydd Iechyd a Llesiant yn ymchwilio i gyrsiau a chefnogaeth sydd ar gael ynghylch pryderon cynyddol ar gyfer aelodau'r awdurdod cyn y pandemig. Cwrs 'Ymwybyddiaeth o Iechyd Meddwl' oedd y cwrs cyntaf y cafodd yr awdurdod olwg arno ymlaen llaw. Yn dilyn y galw am y cwrs hwn a'i lwyddiant a phoblogrwydd cynyddol Cymorth Cyntaf Iechyd Meddwl (MHFA), buom yn ymchwilio i gyrsiau sydd ar gael. Cwrs hyfforddi yw Cymorth Cyntaf Iechyd Meddwl (MHFA) sy'n dysgu pobl sut i adnabod, deall a helpu rhywun a allai fod â phroblem iechyd meddwl.

Dechreuodd y gwaith cwmpasu ar gyfer Cymorth Cyntaf Iechyd Meddwl yn 2020 gan ddarparu cwrs Lefel 1 i'r awdurdod cyfan, a gafodd ei gynnal rhwng Ionawr a Mawrth 2020. Dros gyfnod o dri mis, daeth 194 o bobl i'r cwrs: gyda'r cwrs hyfforddi Cymorth Cyntaf Iechyd Meddwl wedi'i dreialu ac i'w weld yn llwyddiannus ein nod oedd cynnig hyfforddiant i staff a chyflwyno cwrs achrededig trwy'r awdurdod cyfan. Wrth gwmpasu ar gyfer yr hyfforddiant rhoesom ystyriaeth i'r gost, yr amseru, a'r ymrwymiad i'r rôl; gan gymharu dyfynbrisiau gan wahanol gwmnïau. Yn anffodus, cafodd yr hyfforddiant hwn ei atal oherwydd COVID-19 a'r cyfyngiadau symud gan y tybiwyd y byddai'r cwrs deuddydd llawn hwn yn rhy fanwl i'w ddarparu o bell.

Fodd bynnag, yn dilyn ymchwiliadau pellach dechreuodd nifer o gwmnïau gyflwyno'r cyrsiau ar-lein. Gwnaethom benderfynu ar ddarparwr y cwrs ar sail y gost i'r awdurdod a'r gallu i gwblhau'r cwrs o bell. Yn ystod y cyfnod hwn, cafodd y swydd Cydgysylltydd Iechyd a Llesiant (Iechyd Meddwl) ei hymestyn i sicrhau ein bod yn gallu parhau i ddarparu cymorth cadarn a chydnerth. Dechreuodd y gwaith o'i gyflwyno i'r awdurdod o'r diwedd ym mis Mehefin 2021 gyda chytundeb i gynnal un cwrs bob chwarter gyda hyd at 14 o gynrychiolwyr ar bob cwrs. Mae cynllun y cwrs dros 12 awr gyda 6 awr o e-ddysgu hunangyfeiriedig a dwy sesiwn weminar fyw 3 awr o hyd. Ar ôl cwblhau'r cwrs, mae pob cynrychiolydd yn ennill cymhwyster Cymorth Cyntaf Iechyd Meddwl ac yn dal y cymhwyster hwn am 3 blynedd. Cafodd y gwaith o hyrwyddo'r cwrs hwn ei dargedu drwy ein tudalennau mewnrwyd, negeseuon e-bost, a chyfathrebu mewn llythyrau newyddion i'r holl staff, ochr yn ochr â'r adran Dysgu a Datblygu.

Ar ôl cymhwyso, mae pob swyddog Cymorth Cyntaf Iechyd Meddwl yn cael ei ychwanegu at ein tudalennau mewnrwyd gyda'i fanylion cyswllt, yn ogystal ag a yw'n siarad neu'n dysgu Cymraeg, gan roi opsiwn i'r galwr siarad yn eu dewis iaith. I gefnogi'r swyddog Cymorth Cyntaf Iechyd Meddwl mae sianel Teams wedi ei chreu gyda sgyrsiau, awgrymiadau a chyngor wythnosol; bwriedir cynnal sesiwn rwydweithio fisol ar gyfer pob trydydd dydd Mercher o'r mis gydag unrhyw ddiweddariadau neu hyfforddiant a allai fod yn ddefnyddiol.

Er mwyn deall faint o alwadau y mae'r swyddog Cymorth Cyntaf Iechyd Meddwl yn eu derbyn am gyngor, datblygwyd ffurflen sgrinio, gan amlinellu pryderon y galwr a sut y cafodd gymorth gan y swyddog Cymorth Cyntaf Iechyd Meddwl, gan gynnal cyfrinachedd bob amser. Pwrpas y ffurflen sgrinio yw nid yn unig cefnogi'r swyddog Cymorth Cyntaf Iechyd Meddwl ymhellach trwy roi cyngor mewn meysydd penodol, ond hefyd i greu gwasanaeth adweithiol, rhoi cymorth ar waith ar gyfer adrannau penodol neu ddefnyddio e-sgyrsiau i fynd i'r afael â'r pryderon hyn.

**Ystadegau**

- Daeth 194 o bobl i ddilyn hyfforddiant Cymorth Cyntaf Iechyd Meddwl Lefel 1 rhwng Ionawr a Mawrth 2020
- Cymhwysodd 33 fel swyddogion Cymorth Cyntaf Iechyd Meddwl erbyn diwedd 2021, dros 4 cwrs yn y flwyddyn
- Ceir ffocws o gael 56 swyddog Cymorth Cyntaf Iechyd Meddwl cymwys arall erbyn diwedd 2022
- Y pryderon mwyaf sy'n deillio o ffurflenni sgrinio Cymorth Cyntaf Iechyd Meddwl yw hwyliau isel a gorbryder.

**Adborth**

Cafwyd adborth gan y swyddogion Cymorth Cyntaf Iechyd Meddwl drwy ffurflen adborth flwyddyn ar ôl y cynllun peilot cyntaf i bwyso a mesur yr hyfforddiant a sut mae wedi cael ei ddefnyddio hyd yma. Mae hefyd yn gyfle i dynnu sylw at unrhyw feysydd yr oeddem yn eu hesgeuluso ac i ddysgu ffyrdd o wella. Fodd bynnag, roedd yr holl adborth gan weithwyr yn gadarnhaol iawn ar bob cam. Gweler y canlyniadau isod:

**Mae'r holl ymatebwyr yn teimlo *eu bod yn cael eu cefnogi* yn eu rolau fel swyddogion**

**Mae 60% o'r swyddogion Cymorth Cyntaf**

**Byddai 90% o swyddogion Cymorth Cyntaf**

*"Rwy'n meddwl ei bod hi'n ddiddorol gweld cwmpas yr hyfforddiant a faint mae'n ei gwmpasu ynglŷn ag Iechyd Meddwl. Mae'n fuddiol i gael y wybodaeth yna fel unigolyn hefyd."*

*"Mae'n ddefnyddiol yn y modd y mae'n rhoi arweiniad i chi ar sut i gefnogi rhywun a allai fod yn cael trafferth gyda'i iechyd meddwl. Mae'n rhoi ystod eang o wybodaeth am iechyd meddwl a ffyrdd o chwilio am gymorth. Mae'n aallu achub bywydau"*

## Symud ymlaen

- Parhau i ddarparu cyngor a chymorth i'r swyddogion Cymorth Cyntaf Iechyd Meddwl presennol
- Parhau i hyrwyddo ar gyfer hyfforddiant pellach a recriwtio am swyddogion Cymorth Cyntaf Iechyd Meddwl yn y dyfodol
- Hyrwyddo pellach o fewn yr awdurdod i sicrhau bod pawb yn ymwybodol o'r swyddogion Cymorth Cyntaf Iechyd Meddwl a sut i gysylltu â hwy.

# Amcan Cydraddoldeb Strategol - Bod yn Gyflogwr Arweiniol

## Astudiaeth Achos 2: Dysgu a Datblygu

Yn ystod y flwyddyn, mae'r tîm Dysgu a Datblygu wedi arwain a chefnogi sawl menter i gefnogi ein gwasanaethau a'n staff:

- Rydym wedi eilio bob yn ail yr amseroedd cyflwyno ar gyfer sesiynau datblygu i alluogi staff sydd â chyfrifoldebau gofal a gofal plant i fynychu sesiynau datblygu.
- Rydym wedi darparu nifer o gyrsiau i staff Gofal Cymdeithasol a gofalwyr maeth mewn materion megis Ymwybyddiaeth Drawsryweddol, Awtistiaeth ac amrywiol bynciau iechyd meddwl.
- Roedd ein cyrsiau byr mewn iechyd meddwl ar gyfer y trydydd sector a'r sector annibynnol yn arbennig o boblogaidd, gan annog ystod o hygyrchedd i bobl â phroblemau iechyd meddwl.
- Rydym bellach yn monitro ceisiadau ar gyfer ein holl gyfleoedd dysgu a datblygu, er mwyn sicrhau nad oes unrhyw effaith anghymesur ar unrhyw nodwedd warchodedig.
- Wrth ddatblygu ein darpariaeth dysgu ar-lein, darparwyd hyfforddiant i'r rheiny sy'n creu'r cynnwys dysgu a datblygu, er mwyn sicrhau cynrychiolaeth o wahanol nodweddion gwarchodedig yn ein cynnwys dysgu.
- Mae hygyrchedd ar gyfer dysgu digidol yn flaenoriaeth, felly mae'r tîm dysgu a datblygu wedi bod yn datblygu ein hymwybyddiaeth i gefnogi'r gwaith o gynhyrchu deunydd dysgu digidol a hybu hygyrchedd.
- Mae'r tîm dysgu a datblygu hefyd wedi bod yn gweithio drwy ein darpariaeth e-ddysgu bresennol i sicrhau bod yr holl ddysgu'n hygyrch.



Yn ein gwaith i gefnogi anableddau


- Mae un o'n dechreuwyr newydd ym maes gofal cartref yn ddyslecsig gydag anableddau dysgu ysgafn. I gefnogi'r dechreuwr newydd hwn, bu un o'n Hymgynghorwyr Dysgu a Datblygu yn gweithio gyda'r gweithiwr hwn wyneb yn wyneb i'w gynorthwyo i gwblhau'r sesiynau ymsefydlu digidol.
- Mae gan un o'n myfyrwyr Gwaith Cymdeithasol nam ar y golwg sy'n ddirywiol. Er mwyn cynorthwyo'r person hwn ar y lleoliad a'r hyfforddiant cysylltiedig, gwnaethom ddarparu caledwedd (sgrîn 44 modfedd a gliniadur mawr). Mae'r person hwn hefyd yn ddyslecsig, felly gwnaethom ddarparu meddalwedd i'w alluogi i gael ei gefnogi gartref yn ogystal ag yn y gweithle. Rhoddwyd addasiadau rhesymol ar waith hefyd ar gyfer amser darllen, gan ddyblu'r amser darllen arferol a ganiateir. Mae'r gefnogaeth hon wedi galluogi'r myfyriwr Gwaith Cymdeithasol i gadw'r lleoliad i ddychwelyd iddo'r flwyddyn nesaf.
- Mae gan un o'n gweithwyr nam ar y golwg, ac rydym wedi bod yn gweithio gyda darparwr y Brifysgol ar gyfer y cwrs yr ydym yn ei gefnogi, er mwyn sicrhau bod yr holl ddeunyddiau ar gyfer dysgu ar gael mewn fformat hygyrch. Rydym hefyd wedi bod yn gweithio gyda'r gweithiwr hwn, sy'n cynorthwyo'r swyddogaeth dysgu a datblygu i ddatblygu a phrofi cynnwys yr hyfforddiant er mwyn sicrhau ei fod yn hygyrch.
- Mae un o'n dysgwyr Cymraeg yn ddyslecsig, felly buom yn gweithio gyda'r gweithiwr ar sail 1:1 i ddeall ei anghenion, ac ar ôl hynny, wedi cytuno â'r gweithiwr, gwnaethom drosglwyddo'r gweithiwr i gwrs a oedd yn darparu sesiynau mewn dull cyflwyno amgen, a oedd yn ei alluogi i barhau â'i daith o ddysgu Cymraeg.
- Yn ein Canolfan Asesu Graddedigion, buom yn gweithio gydag un o'r ymgeiswyr ar sail un-i-un i ddeall ei anghenion a chytuno ar addasiad rhesymol, a oedd yn cynorthwyo'r ymgeisydd i fynd trwy gam cyntaf y broses recriwtio.

Fel cyflogwr dwyieithog, rydym yn annog ac yn cefnogi ein staff i ddysgu a gwella eu sgiliau yn y Gymraeg.

- Rydym wedi cefnogi tri gweithiwr sy'n siarad Cymraeg drwy'r cwrs Addysgwr Ymarfer, sy'n ein galluogi i ddarparu ar gyfer mwy o fyfyrwyr Gwaith Cymdeithasol sy'n siarad Cymraeg.
- Rydym wedi cefnogi dau weithiwr sy'n siarad Cymraeg i ddatblygu fel Hyfforddwyr, i ehangu'r hyfforddiant sydd ar gael i'w ddarparu drwy gyfrwng y Gymraeg.
- Rydym wedi datblygu mentoriaid digidol sy'n hyfforddi yn Gymraeg a Saesneg, fel bod mentoriaid digidol yn gallu rhoi cymorth i staff yn eu dewis iaith.
- Mae nifer cynyddol o'n cyrsiau bellach yn cael eu darparu trwy gyfrwng y Gymraeg, ac mae gwaith pellach ar y gweill ar gyfer 2022/23 i barhau i ehangu'r ddarpariaeth o sesiynau datblygu trwy gyfrwng y Gymraeg.
- Rydym wedi cynnal sawl sesiwn Clwb Clebran mewn partneriaeth â'n cydweithwyr yn y tîm Polisi, i gefnogi gweithwyr sydd efallai'n cael llai o gyfle i glywed Cymraeg yn y gweithle wrth weithio o bell. Mae hyn yn cynnwys enwogion Cymreig a phobl o fewn yr Awdurdod, gan drafod pynciau amrywiol, sy'n cynnwys garddio, ffitrwydd a

bwyta'n iach, ymwybyddiaeth ofalgar, a choginio. Rydym wedi bod wrth ein bodd gyda'r ymateb, gyda dwywaith cymaint o bobl yn bresennol ag yr oeddem yn ei ddisgwyl, a byddwn yn parhau â'r Clwb Clebran i mewn i 2022/23.

- Rydym wedi ymrwymo i gefnogi dysgwyr ar eu taith i ddysgu Cymraeg; felly, darperir mentor i bob dysgwr i gefnogi ac ymestyn eu dysgu. Yn ogystal, mae'r Awdurdod yn darparu amser gyda thâl i bob dysgwr sy'n dilyn gweithgareddau datblygu'r Gymraeg.



# Amcan Cydraddoldeb Strategol – Bod yn Gyflogwr Arweiniol

## Astudiaeth achos 3: – Canllawiau trawsrywedd i staff a rheolwyr

Fel Cyngor, rydym yn gyfrifol am ddarparu ystod amrywiol o wasanaethau i'r gymuned yr ydym yn ei gwasanaethu. Mae ein llwyddiant yn dibynnu ar y bobl rydym yn eu cyflogi ac ar ddefnyddio'u safbwyntiau a'u profiadau gwahanol. Drwy ddenu, recriwtio a datblygu pobl o'r gronfa dalent ehangaf bosibl gallwn ddatblygu gwell dealltwriaeth o anghenion ein cwsmeriaid nawr ac yn y dyfodol er mwyn sicrhau ein llwyddiant.

Fel rhan o'n haelodaeth o Hyrwyddwyr Amrywiaeth Stonewall yn 2021/22, rydym wedi cyflwyno cais yn ffurfiol i'r Mynegai Cydraddoldeb yn y Gweithle. Rydym wedi trafod ein cyflwyniad yn fanwl gyda'n Rheolwr Cyfrif yn Stonewall Cymru ac yn ystod 2022/23 byddwn yn gweithio ar y blaenoriaethau a nodwyd i wella ymhellach ein gwaith ar gynhwysiant LGBTQ+. Mae ein meysydd i'w gwella yn cynnwys ymgysylltu â staff a'r gymuned a gwella ymwybyddiaeth o gynhwysiant LGBTQ+ ar draws y cyngor.

Yn ystod y flwyddyn, mae'r Is-adran Rheoli Pobl wedi parhau i hyrwyddo ein dogfen Canllawiau Trawsrywedd ar gyfer staff a rheolwyr, a gyhoeddwyd ym mis Medi 2020. Maent wedi'u llunio i gefnogi ein gweithwyr a'n rheolwyr i ddeall profiad staff Traws ac LGB+ yn y gweithle, a'r rhwystrau posibl a allai atal person rhag cyflawni ei botensial. Maent yn darparu canllawiau defnyddiol ynghylch cefnogi ymgeiswyr a gweithwyr LGB+ a thraws, creu amgylchedd gwaith cynhwysol, a'r cymorth y gall person LGBTQ+ ei ddisgwyl.

Os oes rhwystrau'n bodoli o ran recriwtio a chadw staff LGBTQ+, gallem golli'r cyfle i fanteisio ar y potensial hwn. Mae'r canllawiau hyn yn adeiladu ar y wybodaeth yn ein Polisi Cydraddoldeb ac Amrywiaeth a'n Gwerthoedd Craidd fel Cyngor.

Yn ogystal â'r canllawiau, mae modiwl e-ddysgu bellach ar gael ar gyfer rheolwyr a staff i gefnogi gweithle cynhwysol.

SUPPORTING TRANS AND NON-BINARY PEOPLE AT WORK: A GUIDE FOR MANAGERS

Supporting trans and non-binary people at work: a guide for managers

**Who is it aimed at?**

All Staff

**What are the objectives?**

Knowing how to support your trans and non-binary people and create a respectful and safe environment for them is key to promoting their own personal well-being and ensuring that your organisation manages to harness and nurture the very best talent. Comprising original drama, personal testimony and an in-depth case study featuring leading UK insurance company LV=, this course provides an essential toolkit for managers in managing and supporting trans and non-binary staff at all levels of an organisation.

**How will it make a difference?**

This is an externally provided course and is only available in English. It is only accessible to staff who work within Carmarthenshire County Council.

**Delivery method:**

eLearning

Rydym i gyd yn wahanol. Mae ein cefndiroedd, ein profiadau a'n safbwyntiau gwahanol yn golygu ein bod yn meddwl am faterion mewn ffyrdd gwahanol ac yn gallu nodi atebion a chyfleoedd newydd i wella. Mae'r sgiliau hyn yn bwysig i bob un ohonom fel y gallwn ddarparu'r gwasanaeth gorau posibl i'r cyhoedd.

# Amcan Cydraddoldeb Strategol - Mae anghenion a hawliau pobl â Nodweddion Gwarchodedig yn llywio dyluniad gwasanaethau

## Astudiaeth achos 4: Theatrau a Gwasanaethau Diwylliannol

Yn ystod 2021/22 mae ein His-adran Gwasanaethau Diwylliannol wedi bod yn datblygu cysylltiadau a rhaglenni er mwyn sicrhau bod ein Theatrau yn cynnig profiad cynhwysol i'n trigolion.
Yn ystod y pandemig COVID-19 mae'r Tîm Theatrau wedi bod yn gweithio'n agos gyda chwmni o'r enw Taking Flight.

Mae Taking Flight yn un o'r cwmnïau mwyaf blaenllaw yng Nghymru sy'n gweithio gyda pherfformwyr byddar, anabl, a rhai nad ydynt yn anabl, ac mae wedi bod yn gweithio gyda ni i gynyddu nifer y perfformiadau hygyrch i gynulleidfaoedd.

Cafodd FOW ei gyd-gynhyrchu gan y Tîm Theatrau fel rhan o'n rhaglen ffrydio byw yn ystod y cyfyngiadau symud ym mis Ebrill 2021, a chafodd ei gyflwyno mewn 3 iaith wahanol, gan gynnwys Iaith Arwyddion Prydain, Cymraeg a Saesneg.  Aeth y sioe ymlaen i gael ei chyflwyno yng Ngŵyl Fringe Caeredin 2021.

# Fow

### Deaf & Fabulous Productions & Taking Flight Theatre Company in coproduction with The Welfare & Theatrau Sir Gâr




**Thursday 29th April – Wednesday 5th May 2021.**

Cafodd The Curious case of Aberlliw ei gyd-gynhyrchu gan y Tîm Theatrau fel rhan o'n rhaglen awyr agored pan ddechreuodd lleoliadau awyr agored ailagor ym Mehefin 2021, digwyddodd hyn yn Llyn Llech Owain a bu teuluoedd yn dilyn llwybr o amgylch y parc ar antur awyr agored, gan dderbyn diweddariadau fideo a thasgau i'w cwblhau trwy gyfrwng

ap a lawrlwythwyd ar eu dyfais symudol (gyda fideos Iaith Arwyddion Prydain/â chapsiynau yn yr ap).
Ghost Light oedd ein digwyddiad cyntaf yn y Ffwrnes pan wnaethom ailagor ym mis Gorffennaf 2021, a oedd yn daith ymdrochol o amgylch yr ardaloedd cefn llwyfan gyda sioe sain a golau. Taking Flight oedd ein hymgynghorwyr mynediad ar hyn ac roedd yn cynnig perfformiadau ag Iaith Arwyddion Prydain a chapsiynau, a disgrifiadau sain.




Mae'r Tîm yn bartner ar hyn o bryd mewn project newydd o'r enw 'Breaking the Box' ynghyd â Taking Flight, Disability Arts Cymru, Theatrau RCT, Pontio a Hynt. Ariennir y prosiect gan Gyngor Celfyddydau Cymru a gyda'n gilydd rydym yn ymchwilio ar sut i wella mynediad corfforol yn ein lleoliadau, gan ddatblygu rhaglen gynhwysol, datblygu tîm staff a gwirfoddolwyr cynhwysol, datblygu cynulleidfaoedd cynhwysol a marchnata a chyfathrebu hygyrch. Mae'r prosiect yn cynnig tri lleoliad gwaith creadigol ar ddechrau gyrfa, hyfforddiant a datblygu sgiliau yn y lleoliadau, a hyfforddiant i staff y lleoliad.

# Amcan Cydraddoldeb Strategol - Mae anghenion a hawliau pobl â Nodweddion Gwarchodedig yn llywio dyluniad gwasanaethau

## Astudiaeth achos 5: Hygyrchedd gwasanaethau digidol


Yng ngoleuni  Rheoliadau Hygyrchedd Cyrff y Sector Cyhoeddus (Gwefannau ac Apiau Symudol) (Rhif 2) 2018, mae ein Tîm Marchnata a'r Cyfryngau a'r Is-adran TG a Pholisi wedi bod yn gweithio'n agos i wella hygyrchedd ein gwefan gorfforaethol.

Fel rhan o'n gwefan gorfforaethol, mae gennym ddatganiad Hygyrchedd sy'n amlinellu ein nod fel cyngor a'r camau yr ydym wedi'u cymryd i wella. Rydym hefyd yn cydnabod meysydd i'w datblygu ac yn gofyn i'n trigolion am eu hadborth o ran hygyrchedd.

Mae'r wefan hon wedi ei datblygu gyda gweledigaeth glir ein bod eisiau i gymaint o bobl â phosibl allu defnyddio'r wefan hon. Er enghraifft, mae'n golygu y dylai ein trigolion allu:


- newid lliwiau, lefelau cyferbyniad a ffontiau
- chwyddo i mewn hyd at 300% heb golli'r testun ar ochrau'r sgrîn
- llywio drwy'r rhan fwyaf o'r wefan gan ddefnyddio bysellfwrdd yn unig
- llywio drwy'r rhan fwyaf o'r wefan gan ddefnyddio meddalwedd adnabod lleferydd
- gwrando ar y rhan fwyaf o'r wefan gan ddefnyddio darllenydd sgrîn (gan gynnwys y fersiynau diweddaraf o JAWS, NVDA a VoiceOver).

Rydym hefyd wedi gwneud testun y wefan mor syml â phosibl i'w ddeall ac rydym yn cyfeirio ein trigolion at AbilityNetam gyngor ar wneud eu dyfais yn haws i'w defnyddio.




Rydym yn gweithio mewn partneriaeth â'r Gymdeithas er Arloesi, Technoleg a Moderneiddio (SOCITM) i'n galluogi i gynnal hygyrchedd ein gwefan gyda gwasanaeth manwl gan Silktide. Camau dychwelyd asesiadau awtomataidd i'ch helpu i ddatblygu'r profiad gorau posibl i'ch ymwelwyr, yn ogystal â chydymffurfio â chanllawiau Hygyrchedd Cyrff y Sector Cyhoeddus (Gwefannau ac Apiau Symudol).

Ein sgôr gyfredol yw Ardderchog, ac mae ein gwefan wedi'i meincnodi yn erbyn gwefannau ar draws y Sector Cyhoeddus yn y DU. Ar hyn o bryd mae 470 o sefydliadau yn rhan o feincnodi Silktide gyda Chyngor Sir Gaerfyrddin yn rhif 95 ar hyn o bryd.



# Amcan Cydraddoldeb Strategol - Mae anghenion a hawliau pobl â Nodweddion Gwarchodedig yn llywio dyluniad gwasanaethau

## Astudiaeth achos 6: Asesiad Effaith Integredig


Mae asesiadau o effaith yn offeryn ymarferol pwysig ar gyfer ein helpu i ddeall a lleihau effaith bosibl ein penderfyniadau ar ein preswylwyr, ein cwsmeriaid a'n gwasanaethau. Mae asesiadau o effaith yn ein helpu i sicrhau ein bod wedi ystyried sut y gallai ein cynigion effeithio ar wahanol grwpiau a gwasanaethau, gan ein galluogi i gryfhau agweddau cadarnhaol a lliniaru unrhyw effeithiau negyddol posibl. Yn y pen draw, mae asesiadau o effaith yn gyfle i ni ddangos ein proses feddwl ac i herio rhagdybiaethau wrth ddatblygu cynigion newydd. O ganlyniad, gall asesiadau o effaith helpu i sicrhau bod cynigion newydd yn effeithiol ac yn berthnasol i wireddu gweledigaeth y Cyngor, sef galluogi ein holl ddinasyddion i "ddechrau'n dda, byw'n dda a heneiddio'n dda, mewn amgylchedd iach, diogel a llewyrchus".

Mae'r Is-adran TG a Pholisi Corfforaethol wedi bod yn arwain y gwaith o gyflwyno Asesiad Effaith Integredig. Mae hyn oherwydd ei bod yn ofynnol yn statudol i'r Cyngor gwblhau asesiadau effaith o dan nifer o ddeddfwriaethau newydd a phresennol.

Mae ein Hasesiad yn ymgorffori gofynion y Deddfau canlynol mewn un platfform:

- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015
- Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus a Deddf Cydraddoldeb 2010
- Mesur y Gymraeg 2011 a Safonau'r Gymraeg
- Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn a Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011
- Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 – y Ddyletswydd Bioamrywiaeth a Chydnerthedd Ecosystemau
- Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data
- Dyletswydd economaidd-gymdeithasol (a ddaeth i rym ar 31 Mawrth 2021).

Mae cwblhau'r Asesiad Effaith Integredig wedi cael ei ddigideiddio drwy'r platfform Firmstep ac mae bellach yn ymgorffori gofynion llawn cynnwys wynebddalen y pwyllgor Democrataidd. Bellach gellir cwblhau'r holl gynnwys, ei ddiweddaru, a'i gyflwyno drwy'r offeryn ar-lein. Bydd yr Asesiad Effaith Integredig hefyd yn cael ei ymgorffori fel rhan o'r papurau Democrataidd a baratowyd ar gyfer ein Haelodau Etholedig fel rhan o'r platfform mod.gov.



## Integrated Impact Assessment Report

Carmarthenshire County Council Integrated Impact Assessment

Introduction | Proposal Details | Implications | Five ways of working | Equalities | Welsh Language | Socio-Economic duty | Rights of the Child | Environment (Wales) Act & Net Zero Carbon | Data Protection | Consultations | Documents | Coversheet Translation | Committee Details | Cabinet Summary | Meeting Calendar | Revision History

Does the report need a full impact assessment? *

Yes No ✓

Does the report need Head of Service approval ? *

Yes No

Does the report need Director approval ? *

Yes No

**SOCIO-ECONOMIC DUTY** *(The Socio-Economic Duty requires us, when making strategic decisions, to consider how our decisions might help reduce the inequalities associated with socio-economic disadvantage. Inequality of outcome relates to any measurable differences in outcome between those who have experienced socio-economic disadvantage and the rest of the population. It also requires us to understand the views and needs of those impacted by the decision, particularly those who face economic disadvantage)*

What evidence do you have about socio-economic disadvantage and inequalities of outcome in relation to this decision? *

Have you engaged with those effected by the decision? *

Have you considered communities and places of interest? *

What are the main impacts of the proposal? *

Yn ystod 2021/22, mae'r tîm wedi bod yn cefnogi'r gwaith o gyflwyno'r Asesiad Effaith Integredig drwy'r camau canlynol:

- Gwnaethom weithio gydag Anna Morgan, ymgynghorydd allanol, i ddarparu hyfforddiant manwl ar yr Asesiad Effaith Integredig a'r gofynion deddfwriaethol. Darparwyd yr hyfforddiant i bob Pennaeth Gwasanaeth ac i 55 o'n hawduron adroddiadau mwyaf rheolaidd, sy'n paratoi polisïau, strategaethau ac yn arwain ar brosiectau sydd angen cymeradwyaeth Ddemocrataidd.
- Cynhaliwyd sesiynau penodol i'n Haelodau Cabinet a darparom arddangosiad manwl o'r offeryn ar-lein, gan weithio trwy'r cwestiynau a'r dystiolaeth sydd ei hangen wrth gwblhau asesiad.
- Buom yn gweithio gyda'n hadrannau i nodi polisïau, strategaethau a phrosiectau a oedd yn gofyn am Asesiad Effaith Integredig gyda golwg glir ar ddatblygu blaenraglen waith o gwblhau Asesiad Effaith Integredig a sicrhau bod yr Asesiad Effaith Integredig yn cael ei gychwyn o ddechrau unrhyw waith datblygu.
- Bydd y broses Asesiad Effaith Integredig newydd yn cael ei chyflwyno'n llawn ar draws y Cyngor yn ystod 2022-23.

# Amcan Cydraddoldeb Strategol - Cymunedau Diogel a Chydlynus sy'n gydnerth, yn deg ac yn gyfartal

## Astudiaeth achos 7: Cydlyniant Cymunedol 2021 – 22

Mae tîm Cydlyniant Cymunedol Canolbarth a De-orllewin Cymru yn un o 8 tîm rhanbarthol, sy'n cael eu hariannu gan Lywodraeth Cymru. Mae'r tîm yn cwmpasu Sir Gaerfyrddin, Ceredigion, Sir Benfro a Phowys ac mae ganddo Gydgysylltydd a 2 Swyddog.

Mae Cydlyniant Cymunedol yn gweithio ar feysydd gan gynnwys Troseddau Casineb, Ymgyrchoedd Cydlyniant, gyda grwpiau lleiafrifol megis Ffoaduriaid a'r Gymuned Sipsiwn a Theithwyr, Tensiynau Cymunedol a chyfleoedd hyfforddi. Mae'r tîm hefyd yn cydgysylltu cynllun Grantiau Bach ar gyfer prosiectau cymunedol gan ganolbwyntio ar Gydlyniant.

**Ymwybyddiaeth o Droseddau Casineb**

Roedd Wythnos Ymwybyddiaeth o Droseddau Casineb ym mis Hydref 2021 a chymerodd y Tîm Cydlyniant ran mewn gweithgor rhanbarthol i sicrhau bod mentrau'n cael eu cydgysylltu a'u mapio. Roedd y partneriaid yn cynnwys OPCC, Heddlu Dyfed-Powys, Cymorth i Ddioddefwyr, Race Council Cymru a'r Tîm Cydlyniant. Arweiniodd y Tîm Cydlyniant sawl menter ranbarthol:


- Bore Coffi Rhithwir, mewn cydweithrediad â Cymorth i Ddioddefwyr
- Slotiau ar y cyfryngau cymdeithasol gydag Awdurdodau Lleol
- Rhannu'r ffilm 1 funud ar Ymwybyddiaeth o Droseddau Casineb
- Hyrwyddo digwyddiad ar Hawliau Mudwyr drwy rwydweithiau ar draws y rhanbarth.
- 4 digwyddiad ar-lein cyn yr Wythnos Ymwybyddiaeth o Droseddau Casineb mewn cydweithrediad â Cymorth i Ddioddefwyr.

Mewn cydweithrediad â Cymorth i Ddioddefwyr, cynhaliodd y tîm Cydlyniant hefyd Brosiect Grwpiau Ieuenctid a arweiniodd at fod grwpiau yn dylunio crysau-t sy'n dathlu amrywiaeth. Trefnodd y tîm a bu'n bresennol mewn 2 ddigwyddiad dyfarnu gwobrau, a oedd yn deillio o gystadleuaeth a arweiniwyd ar y cyd gan y Tîm Cydlyniant a Chymorth i Ddioddefwyr i ddathlu Wythnos Ymwybyddiaeth o Droseddau Casineb. Cafodd y dyluniadau buddugol eu gwneud yn grysau-t a chawsant eu dyfarnu i'r enillwyr gan gynrychiolwyr Cabinet yr Awdurdod Lleol sy'n gyfrifol am y portffolios Cymunedol. Yr enillwyr oedd Gofalwyr Ifanc Hwlffordd a grŵp ieuenctid LGBQT+ Dr Mz.

**Sesiwn Beilot Casineb Ar-lein**

Ym mis Mawrth 2022, gan weithio gyda Cymorth i Ddioddefwyr, cyd-gyflwynodd y tîm ddigwyddiad o amgylch Casineb Ar-lein. Cafodd y digwyddiad ei gynnal ym mis Mawrth a chafodd ei hyrwyddo gan weinyddwyr Facebook (grwpiau'r ardal leol/grwpiau â diddordeb). Cynhaliwyd gwaith hyrwyddo cyffredinol ychwanegol ar Ddiwrnod Rhyngrwyd Mwy Diogel ddechrau mis Chwefror. Daeth 38 o bobl i'r sesiwn beilot ac roedd yr adborth yn hynod

gadarnhaol. Bydd y sesiwn yn cael ei chyflwyno mewn rhannau eraill o Gymru yn ystod 2022.




**Hyfforddiant Small Steps**
Bu'r tîm yn cydgysylltu'r gwaith o gyflwyno 4 sesiwn a gyflwynwyd gan Small Steps ar Ymwybyddiaeth o weithgarwch Asgell Dde a Gwrth-naratif. Mae Small Steps yn cyflogi aelodau o staff sy'n gyn-ymgyrchwyr asgell dde eithafol, mae hyn yn golygu bod ganddynt y fantais o fod wedi byw'r profiad. Mae'r hyfforddiant yn amlinellu materion a gaiff eu hystumio gan yr asgell dde eithafol, dadansoddiad o weithgarwch lleol a chenedlaethol, technegau recriwtio ac esbonio syniadau gwrth-naratif. Cafodd yr hyfforddiant ei hyrwyddo a'i gefnogi gan y bwrdd CONTEST Rhanbarthol.

**Tensiynau cymunedol**
Mae'r tîm Cydlyniant yn cadeirio cyfarfodydd Monitro Tensiwn amlasiantaeth wythnosol yn y pedair ardal Awdurdod Lleol. Mae hyn yn ddefnyddiol ar gyfer deall materion a mannau lle ceir tensiynau o fewn ein cymunedau, a lle bo'n briodol datblygu mesurau lliniaru. Mae'r partneriaid yn cynnwys Heddlu Dyfed-Powys, Cangen Arbennig, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda, Gwasanaeth Tân Canolbarth a Gorllewin Cymru, Cymorth i Ddioddefwyr, Race Council Cymru, Travelling Ahead, Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant ac adrannau amrywiol o fewn yr Awdurdod Lleol.

**Cronfa Grantiau Bach ar gyfer Prosiectau Cydlyniant**
Trefnodd y tîm fod trydedd rownd o arian grant ar gael i ddatblygu prosiectau sy'n cefnogi egwyddorion cydlyniant. Roedd y gwaith yn cynnwys cefnogi'r gwaith o ddatblygu digwyddiadau ar-lein, adnoddau a deunyddiau neu fentrau eraill sy'n gwella cysylltiadau yn ein cymunedau. Cafodd ceisiadau eu hannog a oedd yn ceisio cynnal gweithgareddau i ddod â chymunedau at ei gilydd na fyddant fel arall byth yn dod i gyfarfod ar-lein neu (os yw'n briodol) yn bersonol – er enghraifft newydd-ddyfodiaid i gymdogaethau sy'n dod i adnabod pobl sydd wedi byw yn yr ardal ers amser maith, gan efeillio prosiectau â chymunedau eraill

mewn gwahanol rannau o Gymru lle mae gan ardaloedd broffil amrywiaeth gwahanol, neu waith sy'n pontio'r cenedlaethau.

**Mis Hanes Pobl Dduon**

Ariannodd y Tîm Cydlyniant ddigwyddiad (fel rhan o brosiect grantiau bach) yn Llanelli, sy'n cael ei redeg gan People Speak Up. Yn y digwyddiad o'r enw Spoken Word Saturday, bu'r storïwr Phil Okwedy yn rhannu straeon gan ei hynafiaid o Nigeria, gan siarad am ei fywyd fel dyn du yng Nghymru a'i hoffter o adrodd straeon traddodiadol. Daeth dros 50 o unigolion i'r digwyddiad hwn a oedd hefyd yn dathlu Wythnos Ymwybyddiaeth o Droseddau Casineb.

**Mis Hanes LGBQT**

Bu'r tîm yn cydgysylltu'r negeseuon cyfryngau cymdeithasol ar draws y pedair sir. Bu hefyd yn cysylltu â rhai o'r prosiectau a ariennir gan Grantiau Bach sy'n datblygu mentrau ar gyfer digwyddiadau yn ystod y mis a byddant yn hyrwyddo'r rhain fel Taith 'Loud and Proud' CETMA 2022 gan ymweld â Llanelli, Tymbl, Aberteifi/Castellnewydd Emlyn, Llanymddyfri, Caerfyrddin, a Chydweli. Roedd yna sesiynau Zoom hefyd yn cael eu cynnal a bu'r tîm yn hyrwyddo'r rhain. Ariannodd y tîm Cydlyniant Cymunedol hefyd ddigwyddiad yn y Ganolfan Magu, Caerfyrddin, a ddatblygwyd gan “On your face”, platfform LGBQT+ sydd â'r nod o ddod â phobl greadigol queer Cymru i'r amlwg. Roedd y digwyddiad yn cynnwys arddangosfa gan amrywiol artistiaid, cerddoriaeth fyw, gweithdai, sgyrsiau, meic agored a stondin fwyd.

**Diwrnod Rhyngwladol Pobl Anabl**

Ariannodd y tîm weithdai a gyflwynwyd i gyd-fynd â Diwrnod Hawliau Gofalwyr (25 Tachwedd) a Diwrnod Rhyngwladol Pobl Anabl (3 Rhagfyr). Y nod oedd hyrwyddo hunan-eiriolaeth i ofalwyr, gan eu helpu i sylweddoli pryd y mae angen iddynt siarad drostynt eu hunain, galluogi gofalwyr i godi eu llais ynglŷn â'u hanghenion, cael mynediad at wybodaeth bolisi a hwyluso cymorth ar-lein parhaus.

**Digwyddiad Cydlyniant yn ein Cymunedau**

Ym mis Mawrth cynhaliodd y tîm ddigwyddiad ar gydlyniant ar waith, gan rannu arferion da a gwersi a ddysgwyd o dri o'r prosiectau Grantiau Bach a ariannwyd ganddynt. Rhoddodd arweinwyr y project gyflwyniadau 15 munud o hyd, a oedd yn cynnwys cyfranogwyr cymunedol, cynnwys ar-lein a phodlediadau a ddatblygwyd fel rhan o'r rhaglen. Y gynulleidfa darged ar gyfer y sesiwn hon oedd grwpiau neu fudiadau cymunedol a allai fod â diddordeb mewn datblygu prosiectau eu hunain. Daeth 42 o bobl i'r sesiwn. O ran yr adborth:

- Roedd 100% o'r rheiny oedd yn bresennol o'r farn bod y sesiwn yn ddiddorol
- Byddai 100% o'r rheiny oedd yn bresennol yn argymell y sesiwn i gydweithwyr.
- Roedd y sesiwn yn bodloni disgwyliadau 100% o'r rheiny oedd yn bresennol.
- Roedd 86% o'r rheiny oedd yn bresennol yn teimlo y byddai ganddynt ddiddordeb mewn rhedeg prosiectau tebyg yn eu cymunedau eu hunain.




**Wcráin**
Mae'r tîm yn rhan o gyfarfodydd wythnosol ynghylch Cydlyniant ac un arall ar gefnogaeth. Yn benodol, mae'r tîm wedi bod yn cwmpasu'r cynnig ffydd ar gyfer pobl sy'n cyrraedd, yn ogystal â gweithio gyda'r 4 Awdurdod Lleol ar y trefniadau angenrheidiol ar gyfer y ddau gynllun arall. Mae'r tîm Cydlyniant Cymunedol yn cwrdd yn wythnosol gyda'r rhwydwaith newydd sef y Rhwydwaith Gofal Bugeiliol i Wcrainiaid, i edrych ar hygyrchedd ffydd yn ein cymunedau hefyd. Roedd y grŵp yn cynnwys Tadau o'r eglwysi Uniongred ar draws y rhanbarth, a hefyd y Tad o Gaerdydd, a chaiff ei Gadeirio gan Cytûn.

Mae'r tîm hefyd wedi datblygu dogfen ystyriaethau diwylliannol sydd wedi'i hychwanegu at sawl pecyn croeso ar draws Cymru.

Mae'r tîm wedi helpu i hwyluso sesiynau trawma iechyd meddwl ar gyfer teuluoedd sy'n noddi a sesiynau galw heibio ar-lein dyddiol ar gyfer pobl sy'n cyrraedd o Wcráin. Ceir cyfarfodydd trawma a chydnerthedd dyddiol ar-lein yn rhad ac am ddim i ddinasyddion Wcrainaidd i roi cyfle iddynt sgwrsio â phobl sy'n mynd drwy'r un pethau. Mae'r sesiynau'n 45 munud o hyd.

Mae'r tîm yn gweithio gyda Cymorth i Ddioddefwyr sy'n datblygu pecyn cymorth ar gyfer cymunedau ac unigolion Wcrainaidd (neu'r rheiny sy'n cynorthwyo Wcrainiaid) a allai brofi trosedd casineb.

Cymerodd y tîm ran yn hyn a'i gyflwyno yn Nigwyddiad Rhannu Heddwch Ysgolion Sir Gaerfyrddin er cefnogaeth i Wcráin. Ymunodd holl ysgolion cynradd Sir Gaerfyrddin i fynegi eu cefnogaeth yn rhithwir. Dyrannwyd lle i'r tîm Cydlyniant roi cyflwyniad lle gwnaethom ailadrodd yr angen i gefnogi ein gilydd a Gwerthoedd Cydlyniant.

# Amcan Cydraddoldeb Strategol – Gwella mynediad i’n gwasanaethau a mynediad i’n hamgylchedd


## Astudiaeth Achos 8: Cynghrair a Phartneriaeth Anableddau Sir Gaerfyrddin

Nod cyffredinol Partneriaeth Anableddau Sir Gaerfyrddin yw sicrhau bod y gwasanaethau a ddarperir gan y Cyngor yn diwallu anghenion pobl ag anableddau ledled Sir Gaerfyrddin. Mae'r Cyngor yn parhau i gefnogi gwaith y Gynghrair ac yn elwa ar ei hadborth a'i chyngor.

Yn ystod 2021/22 mae'r Bartneriaeth wedi parhau i gyfarfod yn rheolaidd, ac mae'r meysydd canlynol wedi bod yn faes ffocws:


- Newidiadau i'r **Amgylchfyd Cyhoeddus** a gyflwynwyd yn ystod y pandemig COVID-19 a llacio rheoliadau. Mae hyn yn cynnwys y mesurau a roddwyd ar waith i sicrhau diogelwch ein cerddwyr wrth iddynt gyrchu'r stryd fawr a'n gwasanaethau hanfodol yn ystod y pandemig. Mae aelodau'r Bartneriaeth Anableddau wedi bod yn cysylltu â busnesau lleol ac unigolion i ofyn am eu hadborth ynghylch hygyrchedd ac unrhyw faterion a allai fod wedi codi i'r gymuned anabl. Yn dilyn cyfnod pellach o ymgynghori, cafodd yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ei ddiweddaru, gyda sylwadau ychwanegol ynghylch hygyrchedd.

- **Hygyrchedd Parc Gwledig Pen-bre** a'r adnoddau sydd ar gael ar y safle. Mae'r Tîm Hamdden Awyr Agored wedi paratoi Datganiad Hygyrchedd manwl, sy'n nodi'r addasiadau ffisegol a'r mesurau rheoli a ddarperir ym mhob rhan o Barc Gwledig Pen-bre i hwyluso mynediad i bawb.



- **Baeau Gwefru Cerbydau Trydan** - Mae Cyngor Sir Caerfyrddin wedi paratoi Strategaeth Seilwaith Gwefru Cerbydau Trydan, ac mae aelodau'r Glymblaid wedi codi materion dilys ynghylch y gofynion hygyrchedd ar gyfer cerbydau wedi'u haddasu. Mae'r pryderon yn ymwneud â darpariaeth sydd wedi bod ar waith cyn cyflwyno offer Gwefru Cerbydau Trydan sy'n addas i bobl anabl. Mae'r cyfleuster Gwefru Cerbydau Trydan newydd yn Cross Hands yn gwbl hygyrch; fodd bynnag, rydym wedi ymrwymo i edrych ar y dechnoleg newydd wedi'i haddasu er mwyn gwella'r pwyntiau gwefru cerbydau trydan hŷn yn y sir.

- **Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda** – gan gydweithio â chydweithwyr o'r bwrdd iechyd sy'n aelodau o'r bartneriaeth, rydym wedi gallu trafod prosiectau a datblygiadau allweddol a chael adborth gan aelodau o'n Clymblaid Anabledd. Mae hyn yn cynnwys gweithio ar yr ymgynghoriad 'Adeiladu Dyfodol Iachach ar ôl COVID-19'.




Ein nod ar gyfer 2022-23 yw ehangu aelodaeth y bartneriaeth er mwyn sicrhau cynrychiolaeth gan bobl â phob math o anabledd a sicrhau bod sefydliadau sector cyhoeddus eraill yn gallu ymgysylltu â'u haelodau.

# Manylion cyswllt

I gael rhagor o wybodaeth am Gynllun Cydraddoldeb Strategol Cyngor Sir Caerfyrddin, Cysylltwch â:

Y Tîm Polisi a Chynnwys

Yr Is-adran TG a Pholisi Corfforaethol

01267 224914

cydraddoldeb@sirgar.gov.uk

Mae'r dudalen hon yn wag yn fwriadol

# Atodiad 2: Cynllun Gweithredu (2022-2024)

| Amcan 1: Bod yn gyflogwr arweiniol | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Cam Gweithredu** | | **Is-adran** | **Canlyniad** | **Amserlen** |
| 1. | Hybu ein hymroddiad i'r cynllun Cyflogwr Hyderus o ran Anabledd a gweithredu i wella'r ffordd yr ydym yn recriwtio, cadw a datblygu pobl anabl | Rheoli Pobl | Denu gweithwyr o'r gronfa ehangaf posibl o dalent | 2022-24 |
| 2. | Parhau i gau a monitro bylchau cyflog a pharhau i gyhoeddi adroddiad blynyddol ar y Bwlch Cyflog yn y Gweithlu | Rheoli Pobl | Mae bylchau cyflog y gweithlu yn parhau i leihau<br><br>Caiff gwybodaeth ar fylchau cyflog ein gweithlu ei chyhoeddi ar y wefan gorfforaethol | 2022-24 |
| 3. | Gwella ein gwybodaeth am gydraddoldeb yn y gweithlu a'n data ar y Gymraeg o'n staff presennol a staff newydd | Rheoli Pobl / TG a Pholisi Corfforaethol | Cynnydd yn nifer y staff sy'n datgelu data o ran cydraddoldeb a'r Gymraeg | 2022-24 |
| 4. | Prif-ffrydio Cydraddoldeb ac Amrywiaeth yn ein cyfleoedd Dysgu a Datblygu | Rheoli Pobl | Cynnydd yn nifer y staff sy'n cwblhau cyfleoedd Ymchwil a Datblygu | 2022-24 |
| 5. | Sicrhau bod staff sy'n rhan o'n gwaith recriwtio a rheoli yn cael hyfforddiant effeithiol ynghylch rhagfarn anymwybodol | Rheoli Pobl | Cynnydd yn nifer y staff sy'n cwblhau cyfleoedd<br><br>Gwell ymwybyddiaeth am ragfarn anymwybodol | 2022-24 |
| 6. | Parhau i gynnal a hyrwyddo llesiant ein staff drwy wahanol fentrau fel yr addewid 'Amser i Newid' | Rheoli Pobl | Gwell llesiant staff | 2022-24 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 7. | Adolygu'r polisïau presennol (e.e. mabwysiadu, mamolaeth, tadolaeth ac absenoldeb rhiant) er mwyn sicrhau eu bod yn defnyddio iaith niwtral o ran y rhywiau drwyddynt draw | Rheoli Pobl | Denu gweithwyr o'r gronfa ehangaf posibl o dalent | CWBLHAWYD |
| 8. | Hyrwyddo a monitro ein polisïau gweithle, fel Gweithio'n Hyblyg, Cydraddoldeb ac Amrywiaeth a Safonau Ymddygiad. | Rheoli Pobl | Denu gweithwyr o'r gronfa ehangaf posibl o dalent | 2022-24 |
| 9. | Hyrwyddo a gweithredu ein haelodaeth o raglen Hyrwyddwyr Amrywiaeth Stonewall | Rheoli Pobl / TG a Pholisi Corfforaethol | Denu gweithwyr o'r gronfa ehangaf posibl o dalent | Cyflwyno cais ffurfiol i Stonewall Cymru ym Medi 2021<br><br>Cafwyd adborth manwl gan Stonewall Cymru ar ein cais a blaenoriaethau'r dyfodol |
| 10. | Datblygu canllawiau trawsryweddol i gefnogi ein gweithwyr a'n rheolwyr i ddeall y profiad a'r broses o drawsnewid, a'r rhwystrau posibl a allai atal person trawsryweddol rhag cyflawni ei botensial yn y gweithle | Rheoli Pobl | Gwell cefnogaeth i weithwyr Trawsryweddol | CWBLHAWYD |
| 11. | Hyrwyddo negeseuon allweddol yn y gweithle sydd wedi'u seilio ar Galendr Cydraddoldeb ac Amrywiaeth Sir Gaerfyrddin | Rheoli Pobl | Gwell ymwybyddiaeth gan grwpiau gwarchodedig<br><br>Gwell ymwybyddiaeth gan grwpiau gwarchodedig | 2022-24 |
| 12. | Datblygu a gweithredu canllawiau i gefnogi staff i ddefnyddio Rhagenwau fel rhan o'u llofnodion e-bost | Marchnata a'r Cyfryngau<br><br>Polisi a Chynnwys | Ymwybyddiaeth o bwysigrwydd rhagenwau | 2022-23 |
| 13. | Cyflwyno cynllun mentora amrywiaeth i alluogi staff o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol i gyflawni eu potensial llawn | Rheoli Pobl | Gwell cyfranogiad gan grwpiau gwarchodedig<br><br>Gwell cyfranogiad yn y gweithle | 2022-24 |

| Amcan 2: Mae anghenion a hawliau pobl â Nodweddion Gwarchodedig yn llywio dyluniad gwasanaethau | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Cam Gweithredu** | | **Is-adran** | **Canlyniad** | **Amserlen** |
| 14. | Sicrhau y rhoddir 'sylw dyledus' i'r holl Grwpiau Gwarchodedig trwy ein proses Asesu Effaith Integredig ac y darperir cymorth / her ar benderfyniadau allweddol o ran rheoli a pholisïau | Polisi Corfforaethol a TG | Gwell gwybodaeth i Aelodau Etholedig i seilio eu penderfyniadau arnynt<br><br>Gwell penderfyniadau, gyda sylfaen dystiolaeth glir i'w hystyried o ran darnau allweddol o ddeddfwriaeth | 2022-24 |
| 15. | Gweithredu'r Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol i Gymru ar draws yr holl adrannau. (Mae'r ddyletswydd economaidd-gymdeithasol yn ddyletswydd ar awdurdodau cyhoeddus i fynd i'r afael â'r anghydraddoldeb sy'n deilio o anfantais economaidd-gymdeithasol, ac i wneud yr amcan hwn yn greiddiol i'w polisïau a'u rhaglenni) | Polisi Corfforaethol a TG | Gwell canlyniadau i'r rheiny sydd dan anfantais economaidd-gymdeithasol | 2022-24 |
| 16. | Myfyrio ar "Cymru Wrth-hiliol – Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol Cymru" (a fydd yn cael ei gyhoeddi ym mis Mehefin 2022) a phrif-ffrydio camau perthnasol yng nghynllun gweithredu'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol | TG a Pholisi Corfforaethol | Canlyniadau gwell i'n cymunedau Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig | 2022-24 |
| 17. | Cryfhau ein perthynas â'r Grwpiau Gwarchodedig trwy fforymau fel Sir Gâr Cyfartal, Partneriaeth Anableddau Sir Gâr a'r Fforwm 50+ | TG a Pholisi Corfforaethol | Gwell cyfranogiad gan grwpiau gwarchodedig | 2022-24 |
| 18. | Galluogi Clymblaid Anableddau Sir Gaerfyrddin i ddylanwadu ar benderfyniadau polisi a | TG a Pholisi Corfforaethol | Gwell cyfranogiad gan grwpiau gwarchodedig | 2022-24 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | datblygiadau allweddol, mewn partneriaeth â chyrff eraill yn y sector cyhoeddus | | | Astudiaeth achos wedi'i chynnwys o fewn Adroddiad Blynyddol y Cynllun Cydraddoldeb Strategol (SEP) |
| 19. | Hybu a chefnogi cymunedau o blaid pobl hŷn | Gwasanaethau Integredig / TG a Pholisi Corfforaethol | Cymunedau lle nad yw oedran yn rhwystr i fyw'n dda a lle mae'r amgylchedd, gweithgareddau a gwasanaethau yn rhoi cefnogaeth i bobl hŷn ac yn eu galluogi. | 2022-24<br><br>Cynhaliwyd trafodaethau gyda Swyddfa Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru<br><br>Derbyniwyd arian gan Lywodraeth Cymru i gefnogi cynnydd o ran Cymunedau sy'n Ystyriol o Bobl Hŷn Sefydliad Iechyd y Byd |
| 20. | Hybu a chefnogi cymunedau sy'n deall dementia | Gwasanaethau Integredig | Cymunedau lle mae pobl â dementia yn cael eu parchu, eu cefnogi, a'u deall | 2022-24<br><br>Cymunedau sy'n Deall Dementia dan arweiniad Cysylltydd Cymunedol |
| 21. | Adolygu a datblygu ein Polisi Cynnwys er mwyn sefydlu amrywiaeth o ddulliau ymgynghori a chynnwys | Marchnata a'r Cyfryngau TG a Pholisi Corfforaethol | Gwell cyfranogiad yn yr holl gymunedau a gan grwpiau gwarchodedig | 2022-23 |
| 22. | Cynorthwyo strwythurau Cyngor / Fforwm Ieuenctid y Sir i fod mor gynhwysol ag sy'n bosibl ac i gael eu llywio gan a'u cysylltu â'u strwythurau democrataidd lleol | Cwricwlwm a Llesiant | Gwell cyfranogiad gyda phobl ifanc | 2022-24 |
| 23. | Canfod a mynd i'r afael ag unrhyw fylchau yn y grwpiau / fforymau pobl ifanc a ddefnyddir ar gyfer | Cwricwlwm a Llesiant | Gwell cyfranogiad gyda phobl ifanc | 2022-24 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | ymgynghori ac ymgysylltu, er mwyn sicrhau eu bod yn gwbl gynhwysol | | | |

| **Amcan 3: Cymunedau diogel a chydlynus sy’n gydnerth, yn deg ac yn gyfartal** | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Cam Gweithredu** | | **Is-adran** | **Canlyniad** | **Terfyn Amser** |
| 24. | Parhau i godi ymwybyddiaeth o droseddau casineb ac i gyfeirio dioddefwyr posibl at wasanaethau hysbysu a chymorth | Cartrefi a Chymunedau mwy Diogel | Gwell ymwybyddiaeth am droseddau casineb a ffyrdd o roi gwybod amdanynt<br><br>Cynnydd posib yn nifer yr achosion troseddau casineb | 2022-24<br><br>Mae ymwybyddiaeth o Droseddau Casineb yn rhan o'r Calendr Cydraddoldeb ac Amrywiaeth a chynllun gwaith y Tîm Cydlyniant Cymunedol |
| 25. | Ymrwymo i'r Siarter Cymorth i Ddioddefwyr Troseddau Casineb | Y Tîm Polisi a Chynnwys | Gwell ymwybyddiaeth am droseddau casineb a ffyrdd o roi gwybod amdanynt | 2022-23 |
| 26. | Cyfeirio dinasyddion yr Undeb Ewropeaidd sy’n byw yn Sir Gaerfyrddin at Gynllun Preswylio’n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE y Swyddfa Gartref a darparu’r lefel briodol o gymorth gan yr awdurdod lleol | Cartrefi a Chymunedau Mwy Diogel | Cynnydd yn nifer dinasyddion yr UE sy'n byw yn Sir Gaerfyrddin sy'n gwneud cais i'r cynllun | CWBLHAWYD<br><br>5,450 o geisiadau yn Sir Gaerfyrddin<br><br>Ceisiadau Cynllun Preswylio'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE |
| 27. | Rhoi ar waith Calendr Cydraddoldeb ac Amrywiaeth Sir Gaerfyrddin ac adolygu’r ffocws pob blwyddyn. Bydd enghreifftiau’n cynnwys Mis Hanes Pobl Dduon, Wythnos Ymwybyddiaeth o Droseddau Casineb, Diwrnod Rhyngwladol yn erbyn Homoffobia, Trawsffobia a Deuffobia, a Diwrnod y Rhuban Wen | Cartrefi a Chymunedau Mwy Diogel / TG a Pholisi Corfforaethol | Gwell ymwybyddiaeth am grwpiau gwarchodedig a digwyddiadau / diwrnodau arwyddocaol<br><br>Cynnydd yn nifer yr ymgyrchoedd | 2022-24 |
| 28. | Gweithredu a hyrwyddo strategaeth ‘Mae Pob Dysgwr yn Cyfrif’, er mwyn hyrwyddo tegwch, | Cwricwlwm a Llesiant | Mae amrywiaeth ymhlith dysgwyr yn cael ei werthfawrogi a'i gefnogi | 2022-24 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | llesiant, cynhwysiant a rhagoriaeth yn ein cymunedau dysgu | | Mae rhwystrau o fewn amgylcheddau dysgu yn cael eu lleihau | |
| 29. | Cynorthwyo ysgolion Sir Gaerfyrddin i ddatblygu a monitro eu Cynlluniau Cydraddoldeb Strategol ac Amcanion | Addysg a Chynhwysiant | Mae Cynlluniau Cydraddoldeb Strategol yn cael eu hyrwyddo a'u monitro ym mhob ysgol | 2022-24 |
| 30. | Cynorthwyo ysgolion Sir Gaerfyrddin i fonitro a mynd i'r afael â Bwlio ar sail Hunaniaeth | Cwricwlwm a llesiant | Monitro bwlio ar sail hunaniaeth yn well<br><br>Gwell cysondeb a chefnogaeth mewn ysgolion yn ymwneud â bwlio ar sail hunaniaeth | 2022-24 |

| Amcan 4: Gwella mynediad i’n gwasanaethau a mynediad i’n hamgylchedd | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Cam Gweithredu** | | **Is-adran** | **Canlyniad** | **Amserlen** |
| 31. | Gweithio yn unol ag ethos y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant i sicrhau bod pobl wedi cael y wybodaeth a chyngor iawn pan fo angen | Gwasanaethau Integredig | Gwell gwybodaeth a chyngor<br><br>Cynnydd yn nifer yr atgyfeiriadau | 2022-24 |
| 32. | Gweithio gydag unigolion a sefydliadau o’r gymuned nam ar y synhwyrau er mwyn gwreiddio Safonau Cymru Gyfan ar gyfer Darparu Gwybodaeth Hygyrch i Bobl â Nam ar eu Synhwyrau a Chyfathrebu â Hwy | Marchnata a'r Cyfryngau / TG a Pholisi Corfforaethol | Gwell hygyrchedd ym mhob dull o gyfathrebu | 2022-24<br><br>Cyhoeddi'r canllawiau hygyrchedd ar y safle mewnrwyd corfforaethol. Monitro'r wybodaeth a gyhoeddir yn gyson |
| 33. | Canfod dull cyson o fonitro amrywiaeth defnyddwyr gwasanaethau a dinasyddion | TG a Pholisi Corfforaethol | Ymagwedd gyson ar draws yr holl wasanaethau wrth fonitro cwestiynau<br><br>Cynnydd o ran ymateb gan ddinasyddion ledled Sir Gaerfyrddin<br><br>Gwell defnydd o ddata wrth ddylanwadu ar benderfyniadau ynghylch polisi | 2022-24 |
| 34. | Gweithio gyda rhanddeiliaid allweddol i sicrhau egwyddorion dylunio cynhwysol ar gyfer yr holl eiddo a datblygiadau newydd | Gwasanaethau Eiddo | Gwell cyfranogiad gan grwpiau gwarchodedig Ystyriaethau mynediad ym mhob adeilad a datblygiad newydd | 2022-24 |